# Academi Heddwch Cymru: Wales as a Nation of Peace

## Why peace?

Peace is more than the absence of war. It is about creating a better world through societies living without fear, it is building social resilience alongside individual rights, and it is about promoting social justice, fairness, respect and equality.

## Why a Nation of Peace?

A number of states have made conscious decisions to place peace firmly on their national agendas, making it part of their national identity and a key value for which they are recognised. It determines how relationships are conducted, about using dialogue as a way of life and seeking cooperation rather than conflict with others.

## Why Wales as a Nation of Peace?

Becoming a Nation of Peace can have a positive impact upon how we govern ourselves and promote social cohesion. It can also significantly enhance Wales's international profile, as it has for other 'peace nations' (such as the Nordic countries), and provide Wales with a distinct identity on the international stage.

## What would it mean to be a Nation of Peace?

Being a Nation of Peace does not mean adopting a blueprint for society. Rather, it is about a direction of travel involving:

- Good relations with neighbours.
- Good governance.
- Social justice.
- A sound and ethical business environment with high levels of human capital.
- The promotion of those cultural values that respect difference and promote tolerance.
- Protection of the natural environment.

## What about the military and defence industry in Wales?

Not all Nations of Peace are demilitarised. Indeed, some European 'peace nations' maintain substantial militaries and defence industries. However, being a Nation of Peace requires an awareness of how the military affects the economy, culture and society.

## Where can I find out more?

Academi Heddwch Cymru is Wales's national peace institute. Its report 'Wales as a Nation of Peace' can be found at https://www.wcia.org.uk/wp-content/uploads/2024/12/Wales-as-a-Nation-of-Peace-report-AHC1.pdf

# Academi Heddwch Cymru: Cymru fel Cenedl Heddwch

## Pam heddwch?

Mae heddwch yn golygu mwy na dim ond absenoldeb rhyfel. Mae'n golygu creu byd gwell drwy gymdeithasau sy'n byw heb ofn, meithrin cadernid cymdeithasol ochr yn ochr â hawliau unigol, a hyrwyddo cyfiawnder cymdeithasol, tegwch, parch a chydraddoldeb.

## Pam Cenedl Heddwch?

Mae nifer o wledydd wedi gwneud penderfyniadau ymwybodol i gynnwys heddwch fel rhan gadarn o'u hagendâu cenedlaethol, gan ei wneud yn rhan o'u hunaniaeth genedlaethol ac yn werth allweddol y cânt eu cydnabod amdano. Mae'n pennu sut mae perthnasoedd yn cael eu cynnal, ynghylch defnyddio deialog fel ffordd o fyw a cheisio cydweithio ag eraill yn hytrach na gwrthdaro â nhw.

## Pam Cymru fel Cenedl Heddwch?

Mae dod yn Genedl Heddwch yn gallu cael effaith gadarnhaol ar sut rydym yn llywodraethu ein hunain ac yn hyrwyddo cydlyniant cymdeithasol. Gall hefyd wella proffil rhyngwladol Cymru yn sylweddol, fel y gwnaeth ar gyfer 'cenhedloedd heddwch' eraill (fel y gwledydd Nordig), a rhoi hunaniaeth unigryw i Gymru ar y llwyfan rhyngwladol.

## Beth fyddai'n ei olygu i fod yn Genedl Heddwch?

Nid yw bod yn Genedl Heddwch yn golygu mabwysiadu glasbrint ar gyfer cymdeithas. Yn hytrach, mae'n ymwneud â chyfeiriad teithio sy'n cynnwys:

- Perthynas dda gyda chymdogion.
- Llywodraethu da.
- Cyfiawnder cymdeithasol.
- Amgylchedd busnes cadarn a moesegol gyda lefelau uchel o gyfalaf dynol.
- Hyrwyddo gwerthoedd diwylliannol sy'n parchu gwahaniaeth ac yn hyrwyddo goddefgarwch.
- Gwarchod yr amgylchedd naturiol.

## Beth am y diwydiant milwrol ac amddiffyn yng Nghymru?

Nid yw pob Cenedl Heddwch yn cael ei dadfilwrio. Mae gan rai 'cenhedloedd heddwch' yn Ewrop luoedd arfog a diwydiannau amddiffyn sylweddol. Fodd bynnag, mae bod yn Genedl Heddwch yn gofyn am ymwybyddiaeth o sut mae'r fyddin yn effeithio ar yr economi, diwylliant a chymdeithas.

## Ble galla i gael rhagor o wybodaeth?

Academi Heddwch Cymru yw sefydliad heddwch cenedlaethol Cymru. Mae ei hadroddiad 'Cymru fel Cenedl Heddwch' ar gael yn https://cymru.global/cy/ein-gwaith/heddwch-ac-adeiladu-heddwch/academi-heddwch-cymru/adroddiadau-ymchwil/